# Hysbysiad Preifatrwydd - Darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant, pobl ifanc, teuluoedd ac oedolion

Mae'r hysbysiad hwn yn egluro pa wybodaeth mae'r Cyngor ei hangen er mwyn prosesu ceisiadau am anghenion gofal a chymorth i ddiwallu swyddogaethau cyhoeddus a gofynion statudol. Mae ei hangen er mwyn i'r Cyngor gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i warchod preifatrwydd unigolion ym mhob rhan o'r broses.

**Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaeth?**

Caiff pob gwybodaeth bersonol ei dal a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddf4()4(no3sa dw6 /MCIDs/et3f14()6()()6)(se)6(e()2(8.04 530.47a4()13(w)14(y)b)6()4()4(

**Pam ein bod angen eich gwybodaeth?**
Mae'r Cyngor angen yr wybodaeth er mwyn darparu'r gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt ac i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

**Gyda phwy fyddwn ni'n rhannu eich gwybodaeth?**
I alluogi'r Cyngor i brosesu eich cais a chydymffurfio gyda'n gofynion cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau partner yn cynnwys:

-  Yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y Llywodraeth;
-  Asiantaeth yr Amgylchedd;
-  Heddlu Gwent;
-  Darparwyr gofal cymdeithasol;
-  Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
-  Llywodraeth Cymru;
-  Archwilwyr;
-  Rheoleiddwyr allanol.

Dim ond ar gyfer diben cyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodaeth statudol y bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliad y mae'n ofynnol gan y gyfraith iddo eu gwneud a gall hefyd rannu'r wybodaeth yma gyda chyrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/weinyddu cyllid cyhoeddus

**Llywodraeth Cymru**
Caiff peth o'r wybodaeth a gadwir amdanoch ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru. Bydd

Rhwymedigaeth cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol

Cyflawni tasg gyhoeddus, er enghraifft cyflawni ein rôl diogelu neu swyddogaeth cynllunio neu wasanaethau gwastraff

Os ydych wedi rhoi caniatâd i ni ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, mae gennych hawl i'w ddiddymu ar unrhyw amser. Os ydych eisiau diddymu eich caniatâd, cysylltwch os gwelwch yn dda â DataProtection@blaenau-gwent.gov.uk a dweud wrthym pa wasanaeth rydych yn ei ddefnyddio fel y gallwn drin eich cais.

***Pa mor hir fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth*?**
Dim ond cyhyd ag sydd angen y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth. Gellir cael manylion llawn am ba mor hir y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth drwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau rydych eu hangen.
Canolfan gyswllt y Cyngor: info@blaenau-gwent.gov.uk / 01495 311556.

**Rhoi gwybodaeth gywir**
Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth